Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi sylw i gwynion yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n llyfryn gwybodaeth gyffredinol, ar gael yma.

Mae AGC yn gyfrifol am annog gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyflawni'r nod hwn drwy reoleiddio, arolygu ac adolygu. Os credwch chi nad yw AGC wedi dilyn y gyfraith, rheoliadau neu ganllawiau, mae'n bosib y bydd yr Ombwdsmon yn gallu eich helpu gyda'ch cwyn. Fel arfer, byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi gwyno wrth AGC (Llywodraeth Cymru) ei hun yn gyntaf.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon:

- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio o swyddogaeth reoleiddio AGC;
- edrych ar gwynion am ddiffygion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n deillio yn ystod adolygiad AGC o Wasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol;
- edrych ar gwynion lle nad yw AGC wedi cyflwyno ymateb neu lle mae wedi cyflwyno ymateb anfoddhaol;
- ystyried cwynion am broses adrodd AGC.

Yr hyn na all yw'r Ombwdson yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- ystyried unrhyw faterion yn ymwneud ag atal o'r gwaith, disgyblu neu faterion personél yn ymwneud â swyddogion AGC neu'r cyrff mae'n eu rheoleiddio neu'n eu harolygu;

- codi cwestiynau am benderfyniad priodol y mae gan AGC hawl i'w wneud.

Materion i gadw mewn cof

- Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Wasanaethau Rheoledig gael eu gweithdrefn gwyno eu hunain. Mae'n bosib y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol yn cael eu cynnwys hefyd wrth ystyried cwynion am wasanaethau rheoledig lle mae wedi prynu gofal ar ran rhywun. Gall yr Ombwdsmon hefyd ymchwilio i gwynion a wnaed gan bobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn cartrefi gofal a thrwy wasanaethau gofal cartref. Mae AGC yn ymddiddori yn natur y cwynion mewn gwasanaethau rheoledig ac mae'n gyfrifol am wirio sut y cydymffurfir â'r fframwaith cyfreithiol.
- Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol sy'n ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros ddiogelu plant ac oedolion. Maent yn gweithio gyda chyrff statudol eraill er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon.
- Dylid delio â chwynion am y 'Gwasanaethau Cymdeithasol' dan weithdrefn Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ei hun yn gyntaf (gweler "Canllaw ar gyfer delio â chwynion a chynrychiolaeth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol").
- Mae gan Ddarparwyr gwasanaethau hefyd hawliau i gyflwyno sylwadau i AGC ac i apelio ar faterion rheoleiddio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach am AGC, yn cynnwys copïau o adroddiadau arolygu, ar ei gwefan: https://arolygiaethgofal.cymru/

Os ydych chi am apelio yn erbyn penderfyniad rheoleiddio a wnaethpwyd gan AGC, a'ch bod eisoes wedi cyflwyno sylwadau i AGC, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Safonau Gofal:

Tribiwnlys Safonau Gofal, Llawr 1af, Llys Ynadon Darlington, Parkgate, DL1 1RU; Ffôn: 01325 289350; E-bost: cst@justice.gov.uk

Os oes gennych chi gŵyn am ymddygiad gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal, gallwch gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru:

Gofal Cymdeithasol Cymru , Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW; Ffôn: 0300 30 33 444
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
Gwefan: https://gofalcymdeithasol.cymru

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac yn ddiduedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i weithredu ei argymhellion – ond yn ymarferol, maent yn gwneud hynny'n ddieithriad bron. Gellir gweld achosion y mae'r Ombwdsmon wedi rhoi sylw iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon.cymru

Cysylltu â ni.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni.

Hawdd ei Ddarllen

Arolygiaeth Gofal Cymru
Lawrlwytho

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203